## Gwerth ac effaith presenoldeb Cymru yn Biennale Fenis ar sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru: Crynodeb Gweithredol

### Cyflwyniad

Comisiynwyd Ymchwil Arad gan Gyngor Celfyddydau Cymru i lunio adroddiad ymchwil ac astudiaeth werthusol i fesur gwerth ac effaith presenoldeb Cymru yn Biennale Fenis ar sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru.

Sefydlwyd Biennale Fenis, y digwyddiad rhyngwladol blaenllaw i'r celfyddydau gweledol, ym 1895. Dyma arddangosfa fwyaf y byd i'r celfyddydau gweledol. Mae modd cyfleu maint y digwyddiad drwy edrych ar y presenoldeb a gofnodwyd: rhagor na 500,000 o ymwelwyr ar gyfer arddangosfa Biennale 2015 a thua 24,000 o guraduron, beirniaid, casglwyr ac artistiaid rhyngwladol yn ystod y tridiau o ragflas.

Caiff *Cymru yn Fenis Wales in Venice*[1] ei gomisiynu a'i reoli drwy bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru a British Council. Ers 2003, mae lefel y buddsoddiad yn *Cymru yn Fenis Wales in Venice* wedi cynyddu o ryw £285,000 i £400,000 o gyllideb graidd ar draws y prosiect dwy flynedd.

Mae *Cymru yn Fenis Wales in Venice* yn galluogi Cymru i ddathlu gwaith ei hartistiaid addawol a phrofiadol gorau ar lwyfan rhyngwladol. Dyma'r nodau presennol ar gyfer cyflwyno yn Fenis:

- Cyflwyno'r artistiaid mwyaf cyffrous a chreadigol sy'n gysylltiedig â Chymru.
- Canolbwyntio sylw rhyngwladol a chenedlaethol ar yr amrywiaeth eang o waith a werthfawrogir gan y beirniaid, sy'n ymwneud â Chymru, sy'n gweithio yng Nghymru neu sy'n dod o Gymru.
- Creu profiadau a chysylltiadau rhyngwladol ar gyfer orielau, curaduron ac artistiaid a fydd yn datblygu'r celfyddydau gweledol yng Nghymru.
- Ar lwyfan y byd, dathlu Cymru ddeinamig, flaengar a diwylliannol ymgysylltiedig.

### Methodoleg

Roedd y fethodoleg ar gyfer y gwaith ymchwil hwn yn cynnwys ymchwil ddesg o ddogfennau monitro Cyngor Celfyddydau Cymru, cyfweliadau â rhanddeiliaid ac arolwg electronig o sector ehangach y celfyddydau gweledol yng Nghymru. Edrychai'r ymchwil ddesg ar gefndir a sail resymegol *Cymru yn Fenis Wales in Venice* gan gyfarwyddo'r gwaith o ddatblygu'r arolygon electronig a chanllawiau'r cyfweliadau.

Rhannodd Arad arolwg electronig i gasglu data ansoddol gan randdeiliaid allweddol yn sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru / y Deyrnas Unedig. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn cynnwys artistiaid, curaduron, cyfarwyddwyr orielau, beirniaid, casglwyr, cyllidwyr, newyddiadurwyr a llunwyr barn. Derbyniwyd cyfanswm o 121 o ymatebion i'r arolwg, er na fu i bob ymatebydd ateb pob cwestiwn.

[1] http://www.arts.wales/celf-yng-nghymru/venice?diablo.lang=cym

Bu i Arad hefyd gynnal 17 o gyfweliadau â rhanddeiliaid a chyfranogwyr i gasglu eu barn am effaith strategol ehangach y prosiect. Cyfwelodd Arad â detholiad o'r curaduron a'r artistiaid a fu'n rhan o bob rhaglen *Cymru yn Fenis Wales in Venice* gan fynychu digwyddiad gwerthuso i gasglu adborth a rannwyd gan gyfranogwyr rhaglen Goruchwylio Arbennig 2015.

## Proffil

Mae consensws cryf ymysg rhanddeiliaid ac ymatebwyr yr arolwg bod proffil *Cymru yn Fenis Wales in Venice* wedi tyfu a datblygu dros y pedair rhaglen ddiwethaf ers 2009 a'u bod wedi cael effaith sylweddol ar broffil rhyngwladol Cymru. Cytunai tua tri chwarter ymatebwyr yr arolwg fod y rhaglen yn cyflwyno artistiaid cyffrous a chreadigol sy'n gysylltiedig â Chymru. Meddai'r rhanddeiliaid fod yr artistiaid, y curaduron a'r goruchwylwyr a fu'n ymwneud â'r cynllun wedi llwyddo i arddangos ansawdd sector y celfyddydau gweledol.

Yn ôl y rhanddeiliaid, mae *Cymru yn Fenis Wales in Venice* yn cyflawni yn erbyn ei brif nodau strategol o ran canolbwyntio sylw rhyngwladol ar y celfyddydau gweledol o Gymru a dathlu Cymru ddeinamig, flaengar a diwylliannol ymgysylltiedig. Ystyrir bod proffil cynyddol Cymru yn rhan greiddiol ac ategol o'r hyn oedd gan gelfyddydau gweledol y Deyrnas Unedig yn ehangach i'w gynnig yn Biennale Fenis. Mae presenoldeb Cymru yno yn darparu manteision gwerthfawr, o ran rhwydweithio a gweithio mewn partneriaeth, i artistiaid, curaduron ac orielau / sefydliadau ac mae'r rhain yn cyfrannu i'r arfer o rannu syniadau creadigol a datblygu cyfleoedd masnachol.

O ran sylw yn y wasg, ystyrir y caiff y rhaglen ei hyrwyddo'n dda, yn gyffredinol, ar lefel genedlaethol a rhyngwladol er i rai rhanddeiliaid ac ymatebwyr yr arolwg nodi bod angen canolbwyntio mwy ar sylw yn y papurau safonol a'r cyfryngau cymdeithasol. Yn achos rhaglenni 2013 a 2015, comisiynwyd asiantaeth y wasg i ymgymryd â gwaith yn y cyfryngau ar lefel genedlaethol a rhyngwladol ac arweiniodd hyn at gynnydd sylweddol yn y sylw a gafwyd yn y wasg o gymharu â 2011.

Er hyn, ystyriai ymatebwyr yr arolwg a'r rhanddeiliaid y gellid gwneud mwy i sicrhau ymwybyddiaeth a sylw i broffil y rhaglen yng Nghymru, yn arbennig ymysg y cyhoedd yn gyffredinol. Cynigwyd y dylai hyn fod yn gysylltiedig â strategaeth fwy cyson o hyrwyddo sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru yn ei gyfanrwydd.

## Dethol

Mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â'r canfyddiad bod natur 'gaeedig' i'r broses ddethol ac roedd rhai o'r farn y gallai'r broses benderfynu fod yn fwy tryloyw i sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r dewis o artistiaid i gynrychioli Cymru gyda rhyw chwarter o ymatebwyr yr arolwg yn mynegi'r farn nad yw'r dewisiadau a wnaed wedi cynrychioli amrywiaeth a chreadigrwydd y sector yn ddigonol.

## Effaith Cymru yn Fenis Wales in Venice

Mae'r lefel uwch o adnoddau a chymorth a ddarparwyd i'r artistiaid a gomisiynwyd drwy *Cymru yn Fenis Wales in Venice* wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'w gwaith, eu dyheadau, eu syniadau creadigol a chyfleoedd i ddatblygu'u gyrfa. Câi ei gydnabod yn gyffredinol mae anodd ar hyn o bryd yw datblygu a chynnal gyrfaoedd yn y celfyddydau gweledol yng Nghymru ac felly gall y sylw rhyngwladol a ddarperir gan y Biennale gynnig cyfleoedd pellach i'r artistiaid a ddewiswyd. Mae nifer o'r artistiaid a ddewiswyd, ers hynny, wedi dangos y gwaith a gynhyrchwyd ganddynt ar gyfer Fenis mewn orielau blaenllaw eraill yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Yn ôl rhai o ymatebwyr yr arolwg, mae'n bwysig bod yr artistiaid a ddewisir yn creu gwaith yng Nghymru ac yn gweithio gydag orielau yng Nghymru.

Meddai'r curaduron a gymerodd ran y cafwyd effaith gref ar eu dyheadau a'u rhwydweithiau, a bod y ffaith iddynt gymryd rhan wedi caniatáu iddynt gyflwyno'r achos dros brosiectau eraill gyda chysylltiadau â Chymru, gan arwain at bartneriaethau a chyfleoedd rhyngwladol pellach. Mae parch mawr gan y sector i raglen Goruchwylio Arbennig ac mae'n llwyddo yn ei hamcanion o roi i artistiaid sydd ar gamau cynnar yn eu gyrfa brofiad o'r byd celf rhyngwladol a'r ansawdd a'r rhwydweithiau sydd eu hangen i lwyddo. Mae orielau yng Nghymru wedi croesawu partneriaethau newydd a chyfleoedd ariannu newydd ac wedi datblygu profiad proffesiynol eu tîm, eu proffil rhyngwladol a'r rhwydweithiau y maent yn gweithredu ynddynt.

Roedd pob un o'r rhanddeiliaid o'r farn bod cymryd rhan yn Biennale Fenis yn arwydd clir i sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru bod arian yn cael ei fuddsoddi a bod dyhead i weithio'n rhyngwladol. Nodwyd bod yr uchelgais a'r hyder hyn yn bwydo i mewn i ddatblygu sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru, gan gyfrannu at lefelau uwch o weithgarwch, ynghyd â chreu màs critigol a seilwaith ledled Cymru. Credai pob un o'r rhanddeiliaid fod *Cymru yn Fenis Wales in Venice* yn cyflawni'n erbyn ei nod strategol o greu profiadau a chysylltiadau rhyngwladol i orielau, curaduron ac artistiaid a fydd yn datblygu'r celfyddydau gweledol yng Nghymru.

Cytunai mwyafrif ymatebwyr yr arolwg â'r farn hon a bod presenoldeb Cymru yn Biennale Fenis yn cynnig manteision gwerthfawr o ran rhwydweithio a llunio partneriaethau ar lefel ryngwladol i sector y celfyddydau gweledol yn ei gyfanrwydd. Ond ystyriai eraill fod manteision *Cymru yn Fenis Wales in Venice* yn fwy cyfyngedig i'r rhai sy'n ymwneud â'r rhaglen yn uniongyrchol, gan alw am gyfleoedd ehangach i'r sector ymwneud â hi. Nododd rhai o'r rhanddeiliaid y dylai artistiaid, curaduron ac orielau yng Nghymru fod yn arwain ar adeiladu ar y partneriaethau sy'n cael eu creu. Roedd galw hefyd am i Lywodraeth Cymru a gweinidogion perthnasol chwarae rôl mwy rhagweithiol wrth hyrwyddo'r celfyddydau gweledol fel rhan o'r pecyn ehangach o ddiwylliant sydd gan Gymru i'w gynnig, gan fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd y mae'r Biennale yn eu hwyluso.

## Gwerth, cynaliadwyedd a strategaethau i'r dyfodol

Ystyriai'r rhanddeiliaid ac ymatebwyr yr arolwg fod presenoldeb yn Biennale Fenis yn chwarae rôl allweddol yn uchelgais Llywodraeth Cymru y dylai Cymru hyrwyddo ei hun yn genedl sy'n ddiwylliannol ddeinamig a hyderus. Ystyrir bod *Cymru yn Fenis Wales in Venice* yn fuddsoddiad creadigol a diwylliannol gwerthfawr i Gymru gan bron i holl ymatebwyr yr arolwg a'r rhanddeiliaid. Mae'n cynnig y cyfle i artistiaid, curaduron, orielau ac eraill yn sector y celfyddydau gweledol wneud cysylltiadau cynaliadwy a phwysig, ac mae'n llwyfan i arddangos rhagoriaeth ddiwylliannol Cymru. Mae Biennale Fenis yn parhau i fod yn un o'r cyfleoedd allweddol sydd gan Gymru i lwyddo yn rhyngwladol, a chaniatáu i artistiaid, curaduron a goruchwylwyr eirioli dros y celfyddydau gweledol a'r sector diwylliannol yn ehangach yng Nghymru.

Cyfeiriai'r rhanddeiliaid ac ymatebwyr yr arolwg at fod rhaglenni dilynol yn adeiladu ar y buddsoddiad a wnaed hyd yma, a'r momentwm pellach a'r proffil a grewyd gan bresenoldeb Cymru yn Fenis ers 2009 (ac ers y tro cyntaf i Gymru fod yn bresennol yn 2003). Ym marn yr holl randdeiliaid a'r rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg, ystyrir bod cynnal presenoldeb yn Fenis yn fuddsoddiad buddiol o ran yr effaith a'r proffil i Gymru, cyhyd â bod seilwaith ategol cryf yng Nghymru i adeiladu ar yr effaith hon. Ystyrir bod sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru bellach yn fwy hyderus ac uchelgeisiol a chaiff disgwyliadau a nodau uwch eu gosod o ran ansawdd a chyfleoedd.

Ystyriai'r holl randdeiliaid a'r rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg (tua tri chwarter) y dylai rhaglen *Cymru yn Fenis Wales in Venice* barhau i gael ei hariannu ar yr un lefel i adeiladu ymhellach ar yr effaith a gyflawnwyd. Roedd cydnabyddiaeth o'r cyfyngiadau ariannol presennol, ond nodai'r rhanddeiliaid werth y buddsoddiad a'r amrywiaeth o fanteision yr oedd yn eu cyflawni i sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru a phroffil rhyngwladol ehangach Cymru. Cafwyd rhai awgrymiadau i geisio rhagor o arian drwy bartneriaethau â phrifysgolion neu drwy nawdd corfforaethol, ond nodwyd bod cystadleuaeth gref am gyllid i ddiwylliant a bod diffyg partneriaid naturiol yn y sector preifat.

Ystyrir bod yr effaith a'r momentwm a gynhyrchir gan *Cymru yn Fenis Wales in Venice* yn gyfle i ymestyn apêl y celfyddydau gweledol a gwella'r sylfaen o gynulleidfa yng Nghymru drwy hyrwyddo ymgysylltiad ehangach. Mae'r ffyrdd a awgrymir i wella'r effaith yn cynnwys proses ddethol sy'n fwy agored i annog mwy o amrywiaeth yn yr ystod o artistiaid a'r curaduron sy'n ymwneud â'r rhaglen; sicrhau bod partneriaethau'n parhau â digwyddiadau amlwg eraill megis Artes Mundi; datblygu gwell seilwaith teithio, er mwyn dod â'r gwaith yn ôl i Gymru a chyflawni strategaeth i fynd â'r gwaith ar daith ar lefel y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Roedd galw ychwanegol am fuddsoddiad pellach yn seilwaith y celfyddydau gweledol yng Nghymru i gynnal proffil a momentwm y sector a manteisio ymhellach ar yr effaith a gyflawnwyd.

## Argymhellion

1. Dylid parhau i ariannu *Cymru yn Fenis Wales in Venice* ar y lefelau presennol i adeiladu ar yr effaith a'r momentwm a gyflawnwyd gan y rhaglen.

2. Wrth barhau i ariannu *Cymru yn Fenis Wales in Venice*, dylai fod yn gysylltiedig ag elfennau eraill o gymorth i ddatblygiad creadigol a masnachol sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru.

3. Dylai strategaethau'r wasg i'r dyfodol ganolbwyntio ar wella sylw yn y cyfryngau cymdeithasol a phapurau safonol y Deyrnas Unedig, a hynny'n gysylltiedig hefyd â datblygu strategaeth mwy hirdymor a chyson i hyrwyddo'r celfyddydau gweledol o Gymru.

4. Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru sicrhau y caiff gwybodaeth ddigonol am broses ddethol *Cymru yn Fenis Wales in Venice* ei rhannu â sector ehangach y celfyddydau gweledol yng Nghymru.

5. Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru ystyried ehangu'r broses ddethol i sicrhau bod yr amrywiaeth ac ansawdd y celfyddydau gweledol sy'n gysylltiedig â Chymru yn cael eu hadlewyrchu yn yr artistiaid, y curaduron a'r orielau a ddewisir.

6. Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru anelu i adeiladu ar y rhwydweithiau a'r partneriaethau rhyngwladol a ddatblygwyd a sicrhau eu bod yn gysylltiedig â strategaethau Llywodraeth Cymru sy'n hyrwyddo pecyn diwylliannol ehangach Cymru.

7. Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru gydweithio â Gweinidogion perthnasol Llywodraeth Cymru i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd a gaiff eu hwyluso gan Biennale Fenis i

adeiladu perthnasoedd strategol. Gallai hyn fod ar ffurf rhaglen wedi’i threfnu o ddigwyddiadau yn ystod yr wythnos agoriadol.

8. Dylid ystyried gwneud gwaith pellach i adeiladu ar raglen addysg a digidol llwyddiannus 2015 er mwyn annog y cyhoedd i ymwneud â rhaglen *Cymru yn Fenis Wales in Venice* a darparu manteision ehangach i Gymru.

9. Dylai’r broses hon fod yn gysylltiedig â gwell seilwaith teithio a phartneriaethau ag orielau yng Nghymru i sicrhau y caiff y gwaith a grëir ar gyfer *Cymru yn Fenis Wales in Venice* ei ddangos yng Nghymru.